165

# CAN AM LWYDDIANT

I'R

# TEMLWYR DA,

YNGHYDA

## CHYNGHOR I BOB MEDDWYN YMUNO A HWY,

A DANGOS

## Drwg Meddwdod a'i Effeithiau ar y rhai a yfant ac a garant y Diodydd Meddwol.

---

*Cenir ar "Old Darby."*

---

Teimlir dawn ein Temlwyr da,—hen feddwon
Yn foddus ymuna,
Fel un gŵr, dros y dŵr da,
I'w hatal rhag diotta.

1. Clywch feddwon, fy nghwynion yn fwynlon,
Bum feddwyn a gwirion yn hir,
Ond gwelais fy ffoledd o'r diwedd,
Mai gwaelaidd a drwg oedd y bir;

Fe roddais fy elw yn gyfan
I'r dafarn, fel bum yn ŵr ffol,
A thlodi fy mhlant a'm gwraig hefyd
Ni welaf byth ddimeu yn ol.

2. Pan fyddo y meddwon a'u teulu
Mewn tlodi yn byw o dan wawd,
Tafarnwyr yw'r dynion caletaf
I wella y truan tylawd;
Aeth plentyn y meddwyn i ofyn
Am damaid i'r dafarn ryw bryd,
Gwraig fawr a chefn lydan fu'r gyntaf
I fwrw'r cardotyn i'r stryd.

3. A'i gŵr sydd yn foldyn mawr enwog,
Rhy heglog i gerdded o'r bron,
Yn chwerthin am ben y dwl feddwon,
A'u gwragedd yn bruddaidd, nid llon.
O herwydd mawr dlodi dioddefant,
O achos hyll fedd-dod eu gwŷr,
A'u plant a'u gwynebau yn llwydaidd,
A'u dillad yn garpiog, dan gur.

4. O feddwon, o deuwch, ac unwch,
Nac yfwch y felldith byth mwy;
'Does ynddi ond wermod gwenwynig,
Gweledig ei cholyn a'i chlwy';

OC 36229668

A channoedd a yrodd i'r crogbren,
A miloedd alltudiodd o'u gwlad;
Pob un a'i hir gâr ac a'i hyfa,
I'r lladdfa daw'r cryfa'n ddi-wad.

5. Fe laddodd Feddygon, rai goraf,
A'r gwychaf o ddewrion ein byd,
A thynodd deyrnasoedd i ryfel—
Gwel, feddwyn, mae'n felldith i gyd;
Achosodd lofruddiaeth, do ganwaith,
A'r wraig i ymadael â'i gŵr,—
Wel unwn yn awr â'r Da Demlwyr,
Ac yfwn laeth enwyn, neu ddwr.

6. Wel unwn â'r Temlwyr, O Gymry,
Er mynu cael medd-dod i lawr,
A throi y tafarndai'n addoldai,
Teneuo y gwŷr a'u bol mawr,
A besgwyd âg arian y meddwon,
A'r rheini'n darn ll'wgu eu plant
A'u gyru yn grwydriaid i chwilio
Am damaid i dori eu chwant.

Fe sobrid pob meddwyn drwy Brydain,
Lled 'chydig a garid i'r *Pawn*,
A 'chydig a gerddai yn droednoeth,
Mae'n ddiau o Fynwy i Fon;

Wel buan y gwelwn holl ddrysau
Tafarndai a *phawn* wedi cau,
A'r cwrw yn 'stafell y diafol,
A'u cadw'n dragwyddol'n eu ffau.

8. Hwn ydyw prif felldith fawr Prydain,
Sy'n arwain plant dynion i ddrwg,
A thori bywoliaeth dda miloedd,
A thynu pob gwarthrudd a gwg;
A thynu teuluoedd i dlodi,
A channoedd i garchar cyn hyn,
A miloedd o ddynion talentog
Ac enwog a yrodd i'r glyn.

9. Mae'n amser i Gymru i weled,
Ac agor ei llygaid yn awr,
Ac uno â'r fyddin ddirwestol,
Er caffael gwas diafol i lawr;
'Roedd medd-dod yn codi yn uchel,
Wel deuwn i ryfel âg ef,
A llwyddiant a gaffo'r Da Demlwyr,
A'u *Brenin* a fyddo Duw'r Nef.

ABEL JONES,
BARDD CRWST.

---

*Argraffwyd gan H. Humphreys, Caernarfon.*